**Teitl: Dathliadau**

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion?</th><th>Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid?</th><th>Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid?</th></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am Ddathliadau fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion?</th><th>Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid?</th><th>Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid?</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:<br>• <u>Chwilio am ystyr a diben;</u><br>• <u>Y byd naturiol a phethau byw;</u><br>• <u>Hunaniaeth a pherthyn;</u><br>• <u>Awdurdod a dylanwad;</u><br>• <u>Perthnasoedd a chyfrifoldeb;</u><br>• <u>Gwerthoedd a moeseg;</u><br>• <u>Taith bywyd;</u><br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>Dolenni Defnyddiol:<br><br>Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance<br>Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities<br>Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/<br>Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes</td></tr>
<tr><td>Geirfa allweddol</td><td>Croeshoeliad- cosb Rufeinig pan oedd person yn cael ei hoelio i ddau ddarn o bren ar ffurf croes. Cafodd Iesu Grist ei ladd fel hyn. Crucifixion.<br><br>Atgyfodiad - dod yn ôl yn fyw ar ôl marw.</td><td>Eid al-Fitr – yr ŵyl sy’n dod a Ramadan i ben.<br><br>Ramadan – mis ymprydio mewn Islam.<br><br>Ymprydio - gwneud heb rywbeth, fel arfer bwyd, am gyfnod.</td><td>Punjab – rhanbarth o India a chartref Sikhiaid.<br><br>Gurdwara – adeilad o addoliad a chyfarfod Sikhiaid.<br><br>Panj Pyare – Y Pump Anwylyd i gofio am y dewrion a fentrodd eu bywydau dros Sikhiaeth</td></tr>
</table>

| Teitlau | Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion? | Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid? | Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid? |
|---|---|---|---|
| | Resurrection.<br><br>Edifarhau - bod yn wirioneddol sori am wneud pethau drwg, dweud sori ac yna stopio gwneud y pethau yna. Repent.<br><br>Efengylau - pedwar llyfr cyntaf y Testament Newydd, ail hanner y Beibl, lle mae'r awduron, Mathew, Marc, Luc ac Ioan yn adrodd hanes Iesu. Gospel.<br><br>Tystion - pobl sydd wedi gweld rhywbeth yn digwydd ac yn gallu dweud yr hanes. Witnesses.<br><br>Meseia - Yn yr Hen Destament, roedd Duw wedi addo Meseia i'r Iddewon - un fyddai'n achub nhw o'u helyntion gyda phŵer Duw. Messiah.<br><br>Pregeth - neges grefyddol sy'n cael ei gyflwyno i bobl. Mae fel arfer wedi ei seilio ar ddarn o'r Beibl. Sermon.<br><br>Enwadau - mae Cristnogion y byd wedi eu rhannu yn wahanol grwpiau e.e. Anglicaniaid, Pabyddion, Presbyteriaid, | Muhammad – Y Proffwyd olaf a'r pwysicaf mewn Islam.<br><br>Qu'ran – Llyfr sanctaidd crefydd Islam.<br><br>Datguddio – dangos, rhoi gwybodaeth.<br><br>Duas - gweithred o addoli mewn Islam lle mae'r Mwslim yn rhoi ei hun yn gyfan gwbl i Allah.<br><br>Dhikr - gweddïau tawel yn y meddwl mewn Islam<br><br>Makkah – dinas sanctaidd crefydd Islam yn Saudi Arabia.<br><br>Henna – patrymau a wneir ar y dwylo yn bennaf.<br><br>Ghusl – glanhau'r corff cyn addoli mewn Islam.<br><br>Eid Mubarak – y cyfarchiad traddodiadol ar Eid al-Fitr – 'boed i chi gael Eid bendithiol.'<br><br>Eidi – yr anrhegion a roddir i blant ar Eid.<br><br>Caplan – un sy'n gwneud gwaith tebyg i ficer neu weinidog ond nid mewn eglwys neu gapel e.e. mewn ysbyty neu garchar. | / arweinwyr y Gurdwara.<br><br>Twrban – penwisg arbennig y Sikhiaid.<br><br>Khalsa – Term am gymuned y Sikhiaid.<br><br>Baisakhi – gair arall am ŵyl Vaisakhi.<br><br>Bhangra – dawns arbennig a gysylltir ag ardal Punjab ac India.<br><br>Amrit Samskar – seremoni derbyn Sikhiaeth<br><br>Nishan Sahib – baner y Sikhiaid<br><br>Guru Granth Sahib – llyfr sanctaidd Sikhiaeth<br><br>Akhand Path – darllen y Guru Granth Sahib o glawr i glawr yn ddi-dor, sy'n cymryd tua 48 awr.<br><br>Karah parshad – bwyd melys wedi'i fendithio – rhoddir ychydig ohono i bob ymwelydd i'r neuadd weddïo yn y gurdwara.<br><br>Langar – y gegin yn y Gurdwara a hefyd y bwyd yn rhad ac am ddim sy'n cael ei weini yno.<br><br>Kirtan - canu emynau sanctaidd i gyfeiliant offerynnau cerddorol |

| Teitlau | Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion? | Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid? | Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid? |
|---|---|---|---|
| | Bedyddwyr, Eglwys Uniongred, Crynwyr. Maen nhw'n addoli mewn ffyrdd gwahanol, ac weithiau yn dysgu pethau gwahanol am Dduw. Denominations.<br><br>Mewn gair a gweithred - wrth siarad ac wrth wneud.<br><br>Cynulleidfaoedd - grwpiau sy'n cyfarfod i addoli a dysgu am Dduw ac Iesu mewn eglwysi/capeli. Congregations.<br><br>Mawl - fel arfer canu emynau/caneuon sy'n moli (praise). Duw.<br><br>Cyfoes - rhywbeth modern, nid hen ffasiwn. Contemporary, up to date.<br><br>Traddodiadol - rhywbeth sydd wedi cael ei wneud ers amser hir. Traditional.<br><br>Ysbryd Glân - mae Cristnogion yn credu yn y Drindod (Trinity )- Duw'r Tad, Iesu'r Mab a'r Ysbryd Glân. Person ydy'r Ysbryd Glân, ond allwn ni ddim ei weld. Fe wnaeth Iesu anfon yr Ysbryd i helpu ac arwain Cristnogion ar ôl iddo fynd yn ôl i'r nefoedd. Holy Spirit. | | |

| Teitlau | Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion? | Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid? | Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid? |
|---|---|---|---|
| **Geiriau chwilio** | Dathlu<br><br>Pasg<br><br>Atgyfodiad<br><br>LLANW<br><br>Addoliad cyfoes<br><br>Gŵyl<br><br>Llangrannog<br><br>Cristnogaeth<br><br>Paul | Dathlu<br><br>Islam<br><br>Mwslimiaid<br><br>Ympryd<br><br>Makkah<br><br>Gweddïau<br><br>Allah<br><br>Caplan<br><br>Cymunedau<br><br>Bwyd a diod. | Punjab<br><br>Gurdwara<br><br>Khalsa<br><br>Guru Nanak<br><br>Guru Gobind Singh<br><br>Vaisakhi/Baisakhi<br><br>Amrit<br><br>Y 5 K<br><br>Langar<br><br>Seva |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol. | | |
| **Tasgau ymestynnol** | 1. Mae Marc pennod 16 adnod 1-8; Ioan pennod 21 adnod 1-9; ac Ioan pennod 21 adnod 1-14 yn dweud | 1. Trafodwch beth yw gwerth gwyliau i gymunedau ffydd yn arbennig lle nad yw'r ffydd yn ffydd y mwyafrif. | 1. Ymchwiliwch i ddiwylliant Rhanbarth Punjab yr India gan roi sylw i ddawnsio Bhangra a chanu mewn Punjabi (gan gofio Nesdi Jones, cantores o Gricieth, |

| Teitlau | Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion? | Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid? | Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid? |
|---|---|---|---|
| | hanes rhai o'r bobl welodd Iesu ar ôl iddo atgyfodi. Darllenwch yr hanesion yn beibl.net (http://beibl.net) a dewiswch un o'r hanesion. Ysgrifennwch baragraff yn disgrifio'r hanes fel petaech chi yno ac yn dyst i'r digwyddiadau.<br><br>Neu<br><br>Dychmygwch mai chi ydy un o'r bobl welodd Iesu yn fyw ar ôl ei atgyfodiad. Dewiswch gymeriad - Pedr, Ioan, Mair Magdalen. Dychmygwch fod yn rhaid i'r cymeriad hwn gyflwyno tystiolaeth mewn llys lle mae bargyfreithiwr yn ei holi, ac ysgrifennwch sgript drama ar gyfer yr olygfa. Gallwch hyd yn oed actio'r olygfa o flaen y dosbarth.<br><br>2. Mae LLANW yn enw 'catchy' ar ŵyl Gristnogol. Meddyliwch am wyliau eraill y ffydd Gristnogol e.e.<br><br>Diolchgarwch – cyfle i ddiolch am y byd, bwyd, y cynhaeaf etc<br><br>Nadolig – cyfle i ddathlu genedigaeth | 2. Lluniwch lyfryn/pamffledyn y gellid ei ddefnyddio i addysgu pobl am Eid.<br><br>3. Ymchwiliwch i'r bwydydd traddodiadol sy'n gysylltiedig ag Eid a rhowch gynnig ar baratoi rhai ohonynt.<br><br>4. Lluniwch holiadur i geisio darganfod faint mae pobl yn eich ardal leol yn gwybod am gymunedau ffydd wahanol. Dadansoddwch y canlyniadau. Beth ellir ei wneud i wella'r sefyllfa? A ydych yn credu bod syniad staff Mwslimaidd Ysbyty Treforys yn syniad da? | wneud cryn enw iddi ei hun yn y maes).<br><br>2. Gwnewch boster neu daflen wybodaeth am rai o brif arferion Sikhiaeth. Cofiwch gynnwys y 5K a gofalwch roi sylw i arferion eraill hefyd.<br><br>3. 'Ffordd o fyw sy'n rhoi cyfle ar gyfer tipyn o liw a mwynhad yw Siciaeth yn bennaf' Trafodwch y gosodiad hwn gan esbonio pam fod hwn yn osodiad ychydig yn arwynebol.<br><br>4. Ysgrifennwch hanes y prawf a roddodd Guru Gobind Singh ar rai o ddilynwyr cyntaf y grefydd. Beth oedd pwrpas hyn? Beth yw eich barn am yr hyn a wnaeth?<br><br>5. Mae pwyslais mawr mewn Sikhiaeth ar y syniad o berthyn i gymuned – y Khalsa. Paham y credwch fod y syniad o berthyn mor bwysig iddynt? A oes perygl inni golli hyn yn ein hoes dechnolegol ni?<br><br>6. Edrychwch ar rôl y Langar (cegin gymunedol) sydd yn rhan allweddol o'r Gwrdwara. Dangoswch sut mae'r syniad hwn yn cael ei ddatblygu gan y syniad o Seva (Elusen a gwasanaeth i eraill). |

| Teitlau | Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion? | Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid? | Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid? |
|---|---|---|---|
| | Iesu<br><br>Noson Ystwyll – y tri gŵr doeth yn dod o hyd i'r Iesu ym Methlehem<br><br>Pentecost – dathlu bod yr Ysbryd Glân wedi dod<br><br>Sul y Palmwydd – Iesu yn dod i Jerwsalem ar ddechrau wythnos y Pasg<br><br>Yr Esgyniad – pan aeth Iesu yn ôl i'r nefoedd<br><br>Dewiswch ddau o'r gwyliau hyn a meddyliwch am enw 'catchy' iddyn nhw. Beth am greu logo i'r gwyliau hyn hefyd.<br><br>3. Ydych chi'n meddwl fod cynnal gŵyl Gristnogol fel LLANW yn bwysig heddiw? Ysgrifennwch baragraff yn eglur pam.<br><br>4. Mae eglwys leol am arddangos posteri sy'n cyhoeddi mae Iesu'n fyw! Ewch ati i ddylunio poster sy'n cyfleu'r neges. | | |

| Teitlau | Pam mae Gŵyl y Llanw yn bwysig i Gristnogion? | Pam mae dathliadau Eid al-Fitr yn bwysig i Fwslemiaid? | Pam mae Vaisakhi yn bwysig i Sikhiaid? |
|---|---|---|---|
| | 5. Meddyliwch beth fyddai Mair Magdalen wedi ei drydar wedi iddi fod at y bedd (darllenwch beibl.net Ioan pennod 20). Ysgrifennwch y neges drydar.<br><br>6. Ydych chi'n credu y dylai eglwysi/capeli Cymru ganu emynau traddodiadol neu rhai cyfoes? Eglurwch pam.<br><br>7. Bydd Cristnogion yn aml yn adrodd Credo neu Gyffes o Ffydd ar y Sul. Mae'n gyfle iddyn nhw ddweud yn gyhoeddus beth maen nhw'n ei gredu. Cliciwch ar - http://www.ebcpcw.cymru/cym/amdanom/yr-hyn-a-gredwn<br><br>Beth sy'n cael ei ddweud am yr Atgyfodiad? | | |
| **Adnoddau pellach** | | | |